

# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn Answers to Questions not Reached in Plenary

**7 Gorffennaf 1999**  
**7 July 1999**

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
[R] signifies the Member has declared an interest

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd** **Questions to the Secretary for Economic Development**

### **University Courses**

**Q6 Phil Williams:** What mechanisms does Rhodri Morgan intend to establish to ensure that the future courses planned by universities in Wales should be chosen to match the needs of those economic and industrial developments planned in the economic development strategy adopted by the Assembly? (OAQ339JS)

**The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan):** All higher education institutions are autonomous independent bodies with responsibility for determining which courses they choose to offer.

However, the substantial contribution of the Welsh higher education sector to economic development, wealth creation and enterprise is fully recognised. The Higher Education Funding Council for Wales has been asked to develop further measures to enhance that contribution by promoting measures to encourage institutions to meet the business needs of industry and commerce including taking into account the information provided by the Future Skills Wales project.

With specific regard to the European structural funds economic development strategy, any activities of Welsh HEIs funded from European programmes must contribute to the overall objectives of those programmes. Activities funded by European structural funds will be subject to eligibility checks and through auditing to ensure they are only used for the purpose for which they are intended.

### **Cyrsiau Prifysgolion**

**C6 Phil Williams:** Pa fecanweithiau y mae Rhodri Morgan yn bwriadu eu creu i sicrhau bod cyrsiau yn y dyfodol ym mhrifysgolion Cymru yn cael eu dewis yn ôl anghenion y datblygiadau economaidd a diwydiannol a arfaethir yn y strategaeth datblygu economaidd a fabwysiadwyd gan y Cynulliad? (OAQ339JS)

**Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan):** Mae pob sefydliad addysg uwch yn gorff annibynnol awtonomaidd sy'n gyfrifol am benderfynu pa gyrsiau y mae'n dewis eu cynnig.

Fodd bynnag, llwyr sylweddolir bod y sector addysg uwch yng Nghymru yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad economaidd, creu cyfoeth a menter. Gofynnwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddatblygu mesurau pellach i gynyddu'r cyfraniad hwnnw trwy hybu mesurau i annog sefydliadau i ddiwallu anghenion busnes ym maes diwydiant a masnach gan gynnwys rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a gafwyd yn sgîl prosiect Sgiliau Dyfodol Cymru.

O safbwynt strategaeth datblygu economaidd cronfeydd strwythurol Ewrop yn benodol, rhaid i weithgareddau'r sefydliadau addysg uwch sy'n derbyn cyllid gan raglenni Ewrop gyfrannu at amcanion cyffredinol y rhaglenni hynny. Bydd y gweithgareddau a gyllidir gan gronfeydd strwythurol Ewrop yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gymwys a byddant hefyd yn destun archwiliadau ariannol trylwyr i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn ôl y bwriad yn unig.

### **Objective 1 Funding (Voluntary Organisations)**

**Q7 Lynne Neagle:** Will Rhodri Morgan give an assurance that local voluntary organisations will have access to Objective 1 funding? (OAQ334VB)

**Rhodri Morgan:** The Assembly is being advised on the uses of Objective 1 funding by the European taskforce. The taskforce's proposals envisage an important role for voluntary sector organisations in a range of community development initiatives in the Objective 1 area. They are also developing proposals for implementation arrangements that would allow local voluntary sector organisations to access the resources necessary to play this role.

### **Arian Amcan 1 (Mudiadau Gwirfoddol)**

**C7 Lynne Neagle:** A wnaiff Rhodri Morgan roi sicrwydd y bydd arian Amcan 1 ar gael i fudiadau gwirfoddol lleol? (OAQ334VB)

**Rhodri Morgan:** Mae'r Cynulliad yn cael ei gynghori ynghylch sut y gellir defnyddio arian Amcan 1 gan y Tasglu Ewropeaidd. Mae cynigion y Tasglu yn rhagweld rôl bwysig i fudiadau'r sector gwirfoddol mewn ystod o gynlluniau datblygu cymunedol yn ardal Amcan 1. Maent hefyd yn datblygu cynigion ar gyfer trefniadau gweithredu a fyddai'n caniatáu i fudiadau'r sector gwirfoddol fanteisio ar yr adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r rôl hon.

### **Interest on Late Payments**

**Q8 Jenny Randerson:** What plans does Rhodri Morgan have to advertise more widely to businesses in Wales the advantages of legislation allowing them to charge interest on late payments? (OAQ331VB)

**Rhodri Morgan:** The Department of Trade and Industry has already organised wide publicity on this matter which has been usefully supplemented in Wales by press releases and dissemination of a simpler guide to the Act's provisions. The relevance of the late payment legislation will continue to be promoted to firms by Business Connect as part of ongoing efforts to improve the payment culture.

### **Llog ar Daliadau Hwyr**

**C8 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan Rhodri Morgan i hysbysebu'n ehangach i fusnesau yng Nghymru fanteision deddf sy'n caniatáu iddynt godi llog ar daliadau hwyr? (OAQ331VB)

**Rhodri Morgan:** Mae'r Adran Masnach a Diwydiant eisoes wedi trefnu cyhoeddusrwydd eang ar y mater hwn a ategwyd yn fuddiol yng Nghymru gan ddatganiadau i'r wasg a'r gwaith o ddosbarthu arweiniad symlach i ddarpariaethau'r Ddeddf. Bydd perthnasedd y ddeddfwriaeth taliadau hwyr yn parhau i gael ei hyrwyddo i fusnesau gan Cyswllt Busnes fel rhan o'r ymdrechion parhaus i wella'r diwylliant talu.

### **Felindre Site (Swansea)**

**Q9 Peter Black:** What progress has been made in attracting interest in the Felindre site in Swansea from employers? (OAQ327VB)

**Rhodri Morgan:** The reclamation of the Felindre site and the assembly of adjacent land required for the development is nearing completion. Infrastructure works, including the construction of an interchange providing direct access to the site from the M4, are expected to begin in the autumn and take around 18 months to complete.

In the meantime, the WDA and City and County of Swansea have developed a comprehensive marketing strategy, targeting companies in the automotive, electronics, communications and computer sectors, which will be implemented internationally as soon as the remaining land ownership issues have been resolved. A CD ROM of the site is currently being put on the internet and also on a WDA promotional video which will be circulated to WDA international division staff at home and abroad to promote Felindre to potential inward investors.

### **Safle Felindre (Abertawe)**

**C9 Peter Black:** Beth yw hynt yr ymdrechion i ennyn diddordeb cyflogwyr yn safle Felindre, Abertawe? (OAQ327VB)

**Rhodri Morgan:** Mae'r gwaith o adennill safle Felindre a threfnu tir cyfagos sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad yn prysur ddirwyn i ben. Disgwylir y bydd gwaith ar yr isadeiledd, gan gynnwys adeiladu cyfnewidfa sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r safle o'r M4, yn dechrau yn ystod yr Hydref ac yn cymryd oddeutu 18 mis i'w gwblhau.

Yn y cyfamser, datblygodd yr Awdurdod Datblygu a Dinas a Sir Abertawe strategaeth farchnata gynhwysfawr, gan dargedu cwmnïau yn y sector moduron, y sector peirianeg, y sector cyfathrebu a'r sector cyfrifiaduron. Caiff y strategaeth honno ei marchnata ar raddfa ryngwladol cyn gynted ag y bydd materion yn ymwneud â pherchenogaeth y tir sydd ar ôl wedi eu datrys. Rhoddir CD ROM o'r safle ar y rhyngwrwyd ar hyn o bryd ac mae'n ymddangos hefyd ar fideo cyhoeddusrwydd Awdurdod Datblygu Cymru a gaiff ei ddosbarthu i staff adran ryngwladol yr Awdurdod Datblygu gartref a thramor er mwyn hyrwyddo Felindre i ddarpar-fuddsoddwyr o'r tu allan.

### **Small Licensed Premises**

**Q10 Christine Chapman:** What representations has Rhodri Morgan had from members of the licensed trade in Wales in relation to the increasing economic burden placed upon small licensed premises? (OAQ330VB)

**Rhodri Morgan:** None to date.

### **Eiddo Trwyddedig Bach**

**C10 Christine Chapman:** Beth y mae Rhodri Morgan wedi'i glywed oddi wrth aelodau'r fasnach drwyddedig yng Nghymru o ran y baich economaidd cynyddol ar eiddo trwyddedig bach? (OAQ330VB)

**Rhodri Morgan:** Dim hyd yma.

## Objective 1 Funding

**Q11 Huw Lewis:** What measures are being taken to develop joint preparations between the Assembly and the Welsh Local Government Association on creating a coherent approach to drawing down Objective 1 funding? (OAQ333JS)

**Rhodri Morgan:** Proposals for the implementation of the Objective 1 programme are currently being considered by the European taskforce. The taskforce's Secretariat includes both the Assembly and the WLGA and they have worked closely together in developing the proposed implementation arrangements now being considered by the taskforce. These proposals are intended to allow a more strategic use of structural funds to be possible than is true under current arrangements.

## Arian Amcan 1

**C11 Huw Lewis:** Pa fesurau sy'n cael eu gwneud i ddatblygu paratodau ar y cyd rhwng y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer creu ymdrech gydlyn mewn perthynas ag arian Amcan 1? (OAQ333JS)

**Rhodri Morgan:** Mae'r tasglu Ewropeaidd ar hyn o bryd yn rhoi ystyriaeth i'r cynigion ar gyfer gweithredu rhaglen Amcan 1. Mae Ysgrifennyddiaeth y tasglu yn cynnwys y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac maent wedi cydweithio'n glòs i ddatblygu'r trefniadau gweithredu arfaethedig sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan y tasglu. Bwriad y cynigion hyn yw caniatáu defnydd mwy strategol o'r cronfeydd strwythurol, rhywbeth nad yw'n digwydd dan y trefniadau presennol.

## Polisiau Datblygu Economaidd

**C12 Cynog Dafis:** Pa drefniadau sydd gan Rhodri Morgan mewn golwg i ddarparu i'r Cynulliad wybodaeth fanwl a gwrthrychol ynglŷn ag effaith polisiau datblygu economaidd ar gyflogaeth, lles cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol? (OAQ332JS)

**Rhodri Morgan:** Yn ôl Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi adroddiad bob pedair blynedd sy'n asesu effeithlonrwydd ei gynigion a'i weithredoedd ym maes hybu datblygu cynaliadwy. Yr wyf yn disgwyl i asesiadau o'r fath dynnu ar yr ystod eang o wybodaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad ac eraill, yn ogystal ag asesu'r cynnydd yn erbyn unrhyw ddangosyddion neu dargedau y bydd y Cynulliad o bosibl yn eu llunio mewn perthynas â chyflawni ei gyfrifoldebau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

## Economic Development Policies

**Q12 Cynog Dafis:** What arrangements has Rhodri Morgan planned for the provision of detailed and objective information for the Assembly regarding the effects of economic development policies on employment, social welfare and environmental sustainability? (OAQ332JS)

**Rhodri Morgan:** Section 121 of the Government of Wales Act 1998 requires the Assembly to publish a report every four years assessing the effectiveness of its proposals and actions in promoting sustainable development. I expect such assessments to draw on the wide range of information produced by the Assembly and others, and to assess progress against any indicators or targets the Assembly may establish related to the discharge of its economic, social and environmental responsibilities.

## Wales European Centre

**Q13 Carwyn Jones:** What plans are there to expand the Wales European Centre in Brussels? (OAQ319VB)

**Rhodri Morgan:** The Wales European Centre Ltd is a company limited by guarantee, with over 70 members. The Welsh Office has not been and the Assembly is not now a member of the company, and it would be inappropriate for the Assembly to develop its own plans for the company's future, but the First Secretary and I hope to have an early meeting with the company chairman to consider with him what part the Assembly might play in the Centre's future development.

## Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C13 Carwyn Jones:** Pa gynlluniau sydd i ehangu Canolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel? (OAQ319VB)

**Rhodri Morgan:** Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru Cyf yn gwmni cyfyngedig trwy warant, ac mae ganddo dros 70 o aelodau. Ni fu'r Swyddfa Gymreig yn aelod o'r cwmni ac nid yw'r Cynulliad yn aelod yn awr ac ni fyddai'n briodol, felly, i'r Cynulliad ddatblygu ei gynlluniau ei hun ar gyfer dyfodol y cwmni. Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau, fodd bynnag, yn gobeithio cyfarfod cyn bo hir gyda chadeirydd y cwmni i ystyried ar y cyd pa ran y gallai'r Cynulliad ei chwarae yn natblygiad y Ganolfan yn y dyfodol.

## Jobs in Mid and West Wales

**Q14 Nick Bourne:** What measures is Rhodri Morgan proposing to promote jobs in mid and west Wales? (OAQ321JS)

**Rhodri Morgan:** We are committed to the vision set out in 'Pathway to Prosperity' of spreading prosperity across Wales. Our aim is to encourage and support more growth and development in our existing companies and create more new enterprises. On 30 June the First Secretary announced a business development initiative, the purpose of which will be to enhance support for business throughout Wales. We will be discussing the issues with our partners: local authorities, business and the voluntary sector, as well as academics and experienced practitioners in the business support field. Changes to existing business support provision, or the invention of new ways of supporting business, will be a core part of the work.

## Swyddi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**C14 Nick Bourne:** Pa fesurau sydd gan Rhodri Morgan mewn golwg i hybu swyddi yn y canolbarth a'r gorllewin? (OAQ321JS)

**Rhodri Morgan:** Yr ydym wedi ymrwmo i'r weledigaeth a nodir yn 'Ffordd i Ffyniant' sef lledaenu ffyniant i bob cwr o Gymru. Ein nod yw annog a chefnogi mwy o dwf a datblygiad yn y cwmnïau sydd gennym ar hyn o bryd a chreu mwy o fentrau newydd. Ar 30 Mehefin cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd fenter datblygu busnes a'i nod fydd creu gwell cefnogaeth i fusnesau ledled Cymru. Byddwn yn trafod yr ystyriaethau gyda'n partneriaid: yr awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a busnesau, yn ogystal â chydag academyddion ac ymarferwyr profiadol ym maes cefnogi busnesau. Bydd newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol i gefnogi busnesau, neu greu ffyrdd newydd o gefnogi busnesau, yn rhan ganolog o'r gwaith.

## **Economic Deprivation**

**Q15 John Griffiths:** What strategy will be followed to tackle economic deprivation in Wales? (OAQ340VB)

**Rhodri Morgan:** 'Pathway to Prosperity' set out an agenda for spreading prosperity throughout Wales. This will be taken forward in the national economic development strategy. The issues that confront the Assembly will need to be tackled in a cross-cutting way. Our Subject Committees and Regional Committees will be tailoring policies to Welsh needs. On 30 June the First Secretary announced that John Clarke, currently Barclays Bank Director, Wales, will be joining the staff of the Assembly on a two-year secondment. His expertise as a front line lending banker will be fully utilised in our discussions with all the key players in Wales when seeking to identify problems and innovative solutions for enhancing business support throughout Wales.

## **Amddifadedd Economaidd**

**C15 John Griffiths:** Pa strategaeth a fydd yn cael ei dilyn yn y frwydr yn erbyn amddifadedd economaidd yng Nghymru? (OAQ340VB)

**Rhodri Morgan:** Yn 'Ffordd i Ffyniant', cafwyd agenda ar gyfer lledaenu ffyniant i bob cwr o Gymru. Gweithredir ar yr agenda hon yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Bydd yn rhaid ymdrin â'r ystyriaethau sy'n wynebu'r Cynulliad mewn modd trawsbynciol. Bydd ein Pwyllgorau Pwnc a'n Pwyllgorau Rhanbarthol yn teilwra polisiau yn unol ag anghenion Cymru. Ar 30 Mehefin, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd y bydd John Clarke, sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Banc Barclays, Cymru, yn ymuno â staff y Cynulliad am ddwy flynedd ar secondiad. Gwneir defnydd llawn o'i arbenigedd fel bancwr benthyca rheng flaen yn ein trafodaethau gyda'r holl garfanau allweddol yng Nghymru wrth geisio dynodi problemau a chanfod atebion newydd ar gyfer creu gwell cefnogaeth i fusnesau ledled Cymru.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid Questions to the Finance Secretary**

### **Transport Budget**

**Q6 Peter Black:** What is the proposed budget provision for transport in Wales over the next two years? (OAQ328VB)

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** Planned expenditure in the sub-expenditure group for transport is £172.8 million in 1999-2000 and £177.4 million in 2000-01. Further details can be found on the management information system or in the former Welsh Office's Departmental Report 1999, 'The Government's Expenditure Plans 1999-2000 to 2001-2002' published in March. Transport funding for the next three financial years will be considered in the forthcoming budget planning round.

### **Cyllideb Trafnidiaeth**

**C6 Peter Black:** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf? (OAQ328VB)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Y gwariant a drefnwyd ar gyfer yr is-grŵp gwariant ar gyfer trafndiaeth yw £172.8 miliwn yn 1999-2000 a £177.4 miliwn yn 2000-01. Mae rhagor o fanylion yn y system gwybodaeth rheoli neu yn Adroddiad Adrannol 1999 y

Swyddfa Gymreig gynt, 'Cynlluniau Gwariant y Llywodraeth 1999-2000 i 2001-2002' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Caiff cyllid trafndiaeth ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf eu hystyried yn y rownd cynllunio cyllidebau sydd ar ddod.

### **Pierhead Building (Running Costs)**

**Q7 David Davies:** What are the annual running costs of the Pierhead Building and will Edwina Hart make a statement? (OAQ314VB)

**Edwina Hart:** The estimated running costs for Pierhead building in the current financial year are £220,000.

### **Adeilad Pierhead (Costau Cynnal)**

**C7 David Davies:** Beth yw costau blynyddol cynnal adeilad Pierhead ac a wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar hyn? (OAQ314VB)

**Edwina Hart:** Amcangyfrifir mai costau cynnal adeilad Pierhead yn y flwyddyn ariannol bresennol yw £220,000.

### **Citizens Advice Bureau Services**

**Q8 Mick Bates:** Are there any mechanisms that the Assembly can put in place to maintain adequate Citizens Advice Bureau services in Wales? (OAQ325AG)

**Edwina Hart:** Following the publication of a compact between the Government and the voluntary sector in Wales last November, agreement was reached between the Secretary of State, the Welsh Local Government Association and the Wales Council for Voluntary Action that local compacts should be developed with the voluntary sector in each local authority area by September 1999. It is within this framework that we will encourage local authorities to provide support for their local bureaux in recognition of their invaluable work and in particular the contribution they make to tackling poverty and social exclusion.

### **Gwasanaethau Canolfannau Cynghori**

**C8 Mick Bates:** A oes mecanweithiau y gall y Cynulliad eu defnyddio i sicrhau bod gwasanaethau Canolfannau Cynghori digonol yng Nghymru? (OAQ325AG)

**Edwina Hart:** Yn dilyn cyhoeddi cyfamod rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol yng Nghymru fis Tachwedd diwethaf, cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y dylid datblygu cyfamodau lleol gyda'r sector gwirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol erbyn mis Medi 1999. Hwn fydd y fframwaith a ddefnyddiwn i annog awdurdodau lleol i gynnig cefnogaeth i'w canolfannau leol er mwyn cydnabod eu gwaith amhrisiadwy ac, yn fwyaf arbennig, eu cyfraniad tuag at fynd i'r afael â thlodi a dieithrwch cymdeithasol.

### **Abolition of Quangos (Savings)**

**Q9 Nick Bourne:** What savings have been made from the abolition of quangos in the current year's budget? (OAQ322)

**Edwina Hart:** Four Assembly-sponsored public bodies have been abolished and two special health authorities have been absorbed into the Assembly itself. We have reduced the number of training and enterprise councils in Wales from six to four. The Cardiff Bay Development Corporation will also be wound up by 31 March 2000. The savings which will flow from

these decisions will meet the additional running costs of the Assembly. Naturally it will take some time to achieve full savings—not least since CBDC has yet to be wound up—but we estimate that savings of £13.1 million have been realised for 1999-2000.

### **Diddymu Cwagos (Arbedion)**

**C9 Nick Bourne:** Pa arbedion a wnaed yn sgîl diddymu'r cwagos yng nghyllideb eleni? (OAQ322)

**Edwina Hart:** Diddymwyd pedwar corff cyhoeddus a noddwyd gan y Cynulliad ac mae dau awdurdod iechyd arbennig wedi'u hymgorffori yn y Cynulliad ei hun. Yr ydym wedi gostwng nifer y cynghorau hyfforddiant a menter yng Nghymru o chwech i bedwar. Hefyd, bydd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dirwyn i ben erbyn 31 Mawrth 2000. Bydd yr arbedion a geir yn sgîl y penderfyniadau hyn yn talu am y costau ychwanegol o gynnal y Cynulliad. Yn naturiol, bydd cryn amser cyn y caiff arbedion llawn eu cyflawni—yn enwedig gan nad yw Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd eto wedi'i ddirwyn i ben—ond amcangyfrifwn fod arbedion o £13.1 miliwn wedi'u cyflawni ar gyfer 1999-2000.